Y R

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1896. [RHIF 101

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PAHAM YR WYF YN UNDODWR?

Cyfieithad o'r Saesneg o "Bapyr Deng Munyd" a ddarllenwyd mewn cyfarfod yn Mhontypridd, Ionawr 18, 1894, *gan R.J.J.*

Y MAE'R Count Tolstoi wedi dywedyd yn ddiweddar mai yr eglwysi yw y rhwystrau mawrion ar ffordd cynnydd crefydd, ac mai yr hereticiaid yw y rhai sydd yn gweithio ar hyd llinellau gwirionedd, a chynydd, a gwareiddiad. Dichon hyn ymddangos yn wrthun, ond yr wyf yn tueddu i gredu ei fod yn osodiad a saif yn ngwyneb yr ymchwiliad manylaf. Perthyna Undodiaid i sect y dywedir yn mhob man yn ei herbyn, ond gan eu bod yn credu fel y maent—eu bod yn dal athrawiaethau syml Cristnogaeth, rheswm, a synwyr cyffredin, teimlant y dylent fod yn falch ar eu ffydd, a sefyll drosti, nad beth fo'r draul, gan ymdrechu yr ymdrech deg, a helpu i wasgar y goleuni. Er i ni gael ein cyfrif gan y cyhoedd yn hereticiaid, yr ydym yr hyn ydym, gobeithiwn, o argyhoeddiad.

Os fel Cymy yr ydym yn falch o Dewi Sant, o herwydd ei wladgarwch, yr ydym fel Undodiaid, am reswm arall, yn falch o Pelagius (neu Morgan), heretic mawr ei oes, heresi yr hwn oedd credu ei fod yn bossibl i blant bach fod yn gadwedig er iddynt farw yn ddifedydd. Llosgwyd Esgob Farrar yn Nghaerfyrddin am bregethu yr un athrawiaeth, ac hyd y nod heddyw, pan yr ydym bron ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni feiddia offeiriaid Eglwys Loegr gladdu, oddieithr megys ci, y plentyn bach a fyddo farw heb ei fedyddio.

Ac er ini allu edmygu a chanmol, heb eithrio na thynu dim yn ol, y gwaith mawr y mae'r Eglwys Babaidd wedi ac yn ei wneuthur er achub gwehilion syrthiedig ein dynoliaeth gyffredin, etto nis

gallwn gadw yn ol ein hegmygedd gwresog o Martin Luther, yr hwn, gyda llawn ymwybyddiaeth o fod Duw gydag ef, a aeth rhagddo tua Worms, yn benderfynol o gario allan ei amcan, ïe, hyd y nod er i bob llechen *(tile)* ar ben pob ty droi allan i fod yn gythraul mewn gwrthwynebiad iddo. Heresi mawr Luther oedd fod dyn yn cael ei achub wrth ffydd, ac nid wrth weithredoedd; ac wrth hyny, os wyf yn ei ddeall, yr oedd yn golygu ei fod yn cael ei achub trwy deilyngdod personol, ac nid trwy rywbeth wedi ei wneuthur yn ei le gan offeiriad—Pabyddol, Anglicanaidd, na neb arall.

Gallwn edmygu John Calfin am gyflymder ei allu rhesymegol, am ei onestrwydd pur, a'i frwdfrydedd selog, er i'r sel hwnw ei arwain mor bell ag i losgi Micel Serfed—ac fe ddichon hyny fod yn llawn cystal a gadael i ddyn farw o oerfel, fel y tybir fod Laodiceaid y dydd heddyw yn tueddu i wneuthur. O'r tu arall nis gallwn ni ddim llai na charu James Arminiws, heresi'r hwn oedd gwadu athrawiaeth John Calfin, fod Duw er tragwyddoldeb wedi ethol yr ychydig yn unig i wynfyd, tra y mae wedi dyfarnu y corff mawr o ddynoliaeth i dragwyddol wae. Pregethai Arminiws iachawdwriaeth gyffredinol—iachawdwriaeth i bawb. Dysgai y gallai pawb fod yn gadwedig, fod iachawdwriaeth yn cael ei chynnyg i bawb, ac mai bai'r dyn ei hunan oedd oni fyddai iddo ei derbyn. Ffydd James Arminiws oedd ffydd Jenkin Jones o Lwynrhydowen yn Sir Aberteifi, Charles Winter yn Morganwg, a Sion Llewelyn a Richard Rees ar Gefncoed yn Sir Frycheiniog.

Heretic mawr ei ardal yn ei oes oedd Dafydd Llwyd o Lwynrhydowen. Fel John Bidle yr Undodwr cyntaf yn Lloegr, talai fwy o warogaeth i reswm nag i awdurdod. Yn Nghaeronen pasiwyd penderfyniad unwaith na chawsai Dafydd Llwyd ei wahodd yno i bregethu byth mwy. Yr oedd wedi cyflawni y pechod anfaddeuol trwy ddywedyd yn ei bregeth y gallasai Judas Iscariot ei hunan fod yn gadwedig oni b'ai ei bechod personol ei hunan. Heresi ofnadwy oedd hwnyna, yn ngwyneb y ffaith dybiedig ein bod yn golledig yn dragwyddol o herwydd pechod ein hendad Adda, yr hwn a gyfranogodd o'r afal oddiar law ei wraig anwyl, gan ddewis yn hytrach farw gyda hi na byw yn unig hebddi. Mae'r cyfeillion yn Nghaeronen er ys llawer amser bellach wedi gadael i'r penderfyniad hwn fyned yn llythyren farw; ac erbyn heddyw mae yn bossibl pregethu yr holl heresiau Undodaidd yno—*nem. con.*—heb neb yn gwrthwynebu. Y mae Dafydd Llwyd yn nghywydd ei Gyffes Ffydd yn dywedyd ei fod wedi dangos y drws i Galfin ac Arminiws. Fel hyn y dywed,

"Cefais, coleddais addysg
O eiriau Duw, orau dysg;
I gael, disâl fy sylfain,
Fy nghrefydd yn rhydd o'r rhai'n.
Hen Galfin ac Arminiws
Gyrais draw goris y drws."

Nid oedd yn derbyn y Drindod yn unrhyw ffurf.

Yr oedd Thomas Evans o Aberdar, Dr. Charles Llwyd, a John James, yn hereticiaid mawrion, ac yn arfer dysgu nid yn unig nad oedd ond un Duw, un Person, Tad pawb, yn caru pawb, ac nid yn unig yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, ond y bydd iddo ryw ddydd—ryw ddydd yn mhell fe ddichon—ond y bydd iddo ryw ddydd sicrhau Iachawdwriaeth pawb. Wrth gwrs, hereticiaid oedd y rhai hyn i gyd, y tu allan i'r gorlan fawr uniawngred, ond oll ar wir linell y blaenfynediant, llinell gwirionedd, llinell cynnydd, ac os yn hereticiaid, etto yn halen y ddaear—dynion yn llawn o ffydd yn Nuw, ac yn ceisio actio i fyny i'w goleuni uwchaf. A ninau, gallwn fod yn hereticiaid o'r hereticiaid hyn, eithr wedi ein derbyn i'w hetifeddiaeth, gadawer i ni ymdrechu ein goreu glas i ddal i fyny faner rhydd-ymofyniad.

Ond na fydded i mi ddywedyd *ni*—gofynir i mi ateb, Paham *yr wyf* yn Undodwr. Nid fy musnes I yw ateb dros eraill, ac nid yw yn bossibl i fy ateb I ateb pawb. Felly atebaf drosof fy hun yn unig :—

1. Yr wyf yn Undodwr am fod fy rhieni yn Undodiaid o fy mlaen. Rheswm canolig ydyw hwnyna fe ddichon, am y gadawai fi yn Babydd yn Rhufain, yn Fohametan yn Constantinopl, yn Hindw yn Calcutta, neu yn bagan tlawd yn ynysoedd y Ffigiaid, neu ynysoedd Môr y Werydd ; etto yr wyf yn maentumio ei fod yn rheswm da i ddechreu. Ond

2. Yr wyf yn Undodwr hefyd o argyhoeddiad. Yr wyf yn teimlo fod Undodiaeth yn boddloni holl ofynion fy natur. Nid yw yn cyhoeddi un athrawiaeth yn wir sydd yn gwrthdaro yn erbyn y tipyn rheswm sydd genyf, nac yn peru i'm cydwybod neu fy synwyr moesol arswydo. Nid yw yn gofyn dim trwsio—dim trimio. Gad fi'n berffaith rydd o flwyddyn i flwyddyn i dderbyn pob gwirionedd newydd nad o ba le bynag y daw. Gyda chynnydd gwybodaeth a blaenfynediad gwyddor, mae yn caniatau ad-drefniad rhwydd. Dysg y gwirioneddau tragwyddol, athrawiaethau sylfaenol pob ffurf o ffydd Gristnogol, ac o ambell un nad yw Gristnogol. Fel y dywedodd Belsham amryw flynyddau o flaen Theodore Parker, sylfaen pob duwinyddiaeth yw cred yn Nuw, mewn dyledswydd, ac mewn anfarwoldeb. Y mae pob calon yn ffyddlon i'r tri phwynt hyn, ac er i wyddor amheu, nis gall wadu. Dylid yn wastad gofio nad oes gan wyddor, fel y cyfryw, un ymwybyddiaeth yn nghylch y pynciau hyn. *Physics* neu anianaeth, gwyddor y synwyrau ydyw, ac nis gall, fel y cyfryw, farnu yn nghylch pethau sydd hwnt i allu y synwyrau i benderfynu. Y *cosmos*—y byd—Beibl arall Duw, llyfr ardderchog ydyw, eithr holer ef fel y myner, mae yn hollol fud ar bynciau moesddysg a chrefydd.

Yn Senedd Crefyddau y Byd yn Chicago, pan oedd cynnrychiolwyr o brif grefyddau'r byd wedi dyfod at eu gilydd—Cristnogion o bob enwad, Mohametaniaid, Hindwaid, Bwdyddion, darfu iddynt un ac oll, pan dan orfod llefaru y goreu a deimlent ac a wyddent heb ymosod ar un ffurf arall o grefydd, ddangos cytundeb rhyfeddol,

cydgordiad hyfryd—yr oedd calon ein dynoliaeth gyffredin ynddynt yn curo yn ffyddlon i ffurfiau cyffredinol mwyaf catholig y meddwl crefyddol.

Fel Undodwr, mi ddymunwn, gyda Dr. Stopford Brooke, gyffredinoli pob gwirionedd sydd yn cael ei ddal gan yr iawngredöydd. Nid oes gan Dduw ei ŵyn swci *(pet lambs)*, cyfranogion o'i drugareddau, tra mae pawb ereill yn cael eu cau allan. Fel mae pob goleuni yn oleuni Duw, pa un bynag a fyddo'n cael ei amlygu yn y seren ddistadlaf ynte yn yr haul grymusaf; felly am Ysprydoliaeth Duw, mae fel ei gariad—yn cael ei estyn i'w holl greaduriaid yn ol mesur amrywiol eu gallu i dderbyn. Nid yw yn cael ei gyfyngu i un wlad, un pobl, un llyfr. Nid yw rhieni daearol yn caru eu plentyn ieuengaf, sydd yn methu dywedyd *nhad* neu *mam* yn groew, yn ddim llai nag y carant yr hynaf sydd yn gallu llefaru yn fwy perffaith; a chredaf fi y bydd y Tad Anfeidrol yn mesur teilyngdod ei blant yn ol eu cyfleusderau a'u cariad yn hytrach nag yn ol eu gwybodaeth; a chredaf yn mhellach fod y cyfryw hyny sydd yn cael eu danfon allan fel cenadon i wledydd tramor, dan yr esgus o achub y paganiaid tywyll ac anwybodus rhag rhyw wae dychymygol sydd ar ddyfod arnynt—gwae a ddanfonir arnynt am beidio credu mewn Iachawdwr, yr hwn ni chlywsant son am ei enw—yn cael eu danfon allan â chenadwri ganddynt, nad yw fel yr ymddengys i mi, yn ddim llai na chelwydd anfeidrol, a chelwydd sydd yn *libel* ar garitor y Tad Goreu.

Yr wyf yn Undodwr, am fod Undodiaeth yn grefydd o oleuni i'r rheswm a'r deall, yn grefydd o heddwch a thangnefedd i'r gydwybod, yn grefydd o obaith anfeidrol a thragwyddol i galonau newynog dynoliaeth.

ANFARWOL DDYN.

Anfarwol ddyn! pwy fedr dy orchfygu?
Ymgryma'r môr o'th flaen, a gwnei i'r fellten blygu.
Nesha yr huan gyda'i deulu o fydoedd
I gyd i'th wydd o uchelfanau'r nefoedd.
Daw'r lloer i lawr yn wylaidd o'i phalasau,
A dyd ei throed ar ymyl y cymmylau,
A dengys it' heb unrhyw gêl ei hagwedd brudd a'i brychau.
Yr wyt yn lledu'th daflen ar yr huan,
Yn enwi y planedau o gylch, yn sangu ochrau anian,
Gan blymio'r eigion sêr. 'Ffwrdd tua'r nefoedd
Fel angel ëi, gan agor dorau'r bydoedd.
Disgyna'r mellt fel rhaiadr dân o'r cwmmwl
Yn ufudd wrth dy draed; ac ar dy awgrym,
Amgylchant fôr a thir fel engyl cyflym,

F'ai'n llamu o'r cymmylau i drosglwyddo
Dy feddwl hyd derfynau'r byd yn danllyd a diflino.
Ti wnei y tarth yn nerthol fel daeargryn!
Yr wyt yn tynu'r tân o'r nef, yn codi'r ffrwd o'r dyffryn,
Yn gynt nâ'r awel. Erfawr yw dy allu,
Anfarwol ddyn! Pwy fedr dy orchfygu?

Islwyn, 1855.

AMCAN MEWN BYWYD.

Gan Mr. D. Delta Evans, Llundain.

"Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni."
—*Preg. ix. 10.*

Adgofir ni yn fynych, wrth ddarllen bywgraffiadau enwogion y ddaear, fod yr hyn y mae dyn yn dyfod pan wedi tyfu i fyny yn dybynu i raddau pell ar y cynllun a dynwyd allan ganddo yn ei foreufyd fel amcan penaf a theilyngaf ei fywyd i geisio ei ddylyn; neu, mewn geiriau ereill, ar y gwrthddrych y gosododd efe ei fryd arno yn ei ieuenctid fel y nod ag yr oedd yn werth iddo lwyr gyssegru ei fywyd mewn trefn i'w gyrhaedd. "Y plentyn ydyw tad y dyn," ac y mae cysgod o'r hyn y mae y dyn yn debyg o fod i'w ganfod yn arferion plentynaidd y bachgen. Yr oedd elfenau y cymmeriad gwych hwna ag sydd yn ymddadblygu mewn prydferthwch ymarweddiad, ac yn cynnyddu fwy-fwy mewn gweithredoedd daionus fel yr heneiddia ei berchenog, ac yn y diwedd i'w weled yn doreithiog o ffrwyth—yr oedd elfenau dymunol y cymmeriad hwna i'w gweled yn blaguro yn y bachgenyn, ac yn cael eu meithrin yn dyner ac yn ofalus ganddo, fel ag i dderbyn pob chwareu teg i gynnyddu a chryfhau.

Nid fy mwriad I yn awr ydyw cymmeryd arnaf fy hunan y gorchwyl o geisio rhoddi deffiniad cywrain o'r frawddeg ag sydd yn ffurfio testyn fy mhapyr, neu roddi amlinelliad o amcan penaf bywyd; ac nid ydwyf am foment yn anturio cyfarwyddo neb gyda golwg ar yr hyn y dylent ei osod o'u blaen fel yr *ideal* neu y nod i gyrchu ato. Ond anturiaf ddweyd y dylai fod genym oll *ryw* amcan mewn bywyd, a chredaf mai ein dyledswydd ydyw chwilio am yr amcan goreu, gwerthfawrocaf, a theilyngaf i geisio ei gyrhaedd. Diau fod yr amcanion sydd gan wahanol bersonau mewn bywyd yn amrywio yn ol amgylchiadau—yn ol addysg, tuedd, a chwaeth; ond etto, y mae yr amcanion i ddewis o honynt mor lluosog ac amrywiol â'r gwahanfodolion aneirif ag ydynt yn cyfansoddi cymdeithas yn ei hystyr eangaf.

Yn nechreu y ganrif bresennol, mewn pentref yn Connecticut, America, gellid gweled bachgen bychan ag oedd wedi ei rwymo yn egwyddorwas yn efail ddistadl y llan, a'r hwn oedd yn hynod o her-

wydd ei astudiaeth, ei ddiwydrwydd, a'i ddyfalbarhad. Yn y naill law yr oedd llyfr, a defnyddiai y llaw arall yn ddiwyd i weithio'r fegin ag oedd yn chwythu'r tan i boethi heiyrn y gof. Yr oedd ei ben a'i ddwylaw yn barhaus ar waith; am bob ysgogiad o eiddo'r fegin, ac am bob chwŷth a roddid i'r tan, lladratäai y bachgen gipolwg o'i llyfr, a chyflwynai frawddeg ar ol brawddeg yn ddyogel i eigion ei gof, yno i fod yn drysorau o annhraethol werth, ac i ymddadblygu a dwyn ffrwyth yn y dyfodol. Ac fel hyn y dysgodd yr enwog Elihu Burritt bron yr holl ieithoedd diweddar, yn nghyd a'r Hebraeg, y Syriaeg, a'r Roeg. Yr oedd gan Burritt amcan ardderchog mewn golwg, a chyssegrodd ei oriau hamddenol a'i holl nerth i gyrchu at yr amcan hwnw; ac yn nghyflawnder amser efe a ddaeth yn un o ddiwygwyr penaf America; yn wir, cyrhaeddai ei ddylanwad dros y byd gwareiddiedig, yn neillduol ei waith diflino dros ddirwest a'i ymdrechion egniol i sefydlu *penny postage* a'r hyn a elwid yn *League of Universal Brotherhood.*

Yr un modd hefyd y mae bywyd ardderchog Martin Luther a'i wasanaeth bythgofiadwy i'r Diwygiad Mawr Protestanaidd yn byw o'r hyn ellir ei gyflawni gan berson unigol pan y bydd amcan pennodol ac aruchel yn llywodraethu ei fywyd. Dywedir fod cyflwr moesol yr Almaen yn dra isel yn nhymhor ieuenctid Luther, ac yr oedd ei sefyllfa wleidyddol yn gyffrous i'r eithaf. "Cyfododd y dosparthiadau isaf mewn terfysgoedd nifer o weithiau, ond gan eu bod heb arweinwyr, llethwyd hwy bob tro ar ol ymdrechion gwaedlyd, a'r canlyniad oedd, eu bod yn gorfod goddef mwy o galedi a gorthrwm nag o'r blaen. Etto, yr oedd yr oes yn un gynnyddol: yr oedd dyfeisiad y gelfyddyd o argraffu wedi cynnysgaethu y meddwl dynol ag adenydd; ieitheg wedi agor ffynnonellau hanesyddol, yn gystal ag athroniaeth a barddoniaeth; sêr-ddewiniaeth wedi rhoddi lle i seryddiaeth; a syniadau mwy goleuedig yn cael eu coleddu am y greadigaeth nag o'r blaen. Yr oedd y syniad crefyddol hefyd wedi ei ddeffroi er dyddiau Wycliffe a Huss, ac yr oedd y teimlad yn ffynu y dylai yr Efengyl fod yn sylfaen crefydd; ond yn mha le y ceid dyn i adfer ei llythyren a'i hyspryd, ac i ddarganfod y ffordd oddiwrth Dduw at yr enaid drwy dywyllwch y ffugchwedlau ac arferion a chamarferion yr oesoedd a aethant heibio?" Pa le yr oedd y gwr a ymgymmerai a'r gwaith o ddynoethi twyll-honiadau Eglwys Rhufain a dymchwelyd gormes a thra-arglwyddiaeth y Pab? Yr oedd y gwaith yn fawr, a'r anhawsderau yn lluosog; ond gwnaeth Luther symmudiad yr anhawsderau hyn yn brif amcan ei fywyd; "a chyssegrodd fywyd o egni ac ymroad digyffelyb i osod y gwaith da ar sylfeini cedyrn; ac er iddo orfod ei adael yn nghanol y peryglon pan y bu farw, bu y Diwygiad Protestanaidd fyw, a phrofodd yn elfen hanfodol yn adnewyddiad ac adferiad y bobl, ac nid fel y proffwydai y gelynion, yn achos o chwyldroadau."

Dylai hanesion fel eiddo Martin Luther a hen gewri ereill y Diwygiad ein symbylu ni i weithgarwch, ac i benderfynu gosod rhyw amcan i'n bywyd—

Nerve thy soul with doctrines noble—noble in the walks of Time—
Time that leads to an eternal—an eternal life sublime—
Life sublime in moral beauty—beauty that shall ever be—
Ever be to lure thee onward—onward to the fountain free—
Free to every earnest seeker—seeker at the fount of youth—
Youth exultant in its beauty—beauty found in quest of Truth.

Dywed Carlyle mai y dyn mawr sydd yn ffurfio ac yn moldio yr oes y mae yn byw ynddi; ond haera Herbert Spencer mai yr oes sydd yn ffurfio ac yn moldio y dyn mawr. Nid yw o bwys i mi pa un o'r ddau wr athrylithgar hyn sydd yn gywir: diau fod y ddau yn gywir, gan fod cymmaint i'w ddweyd o'r ddwy ochr. Ond credir yn gyffredin erbyn hyn fod y gwirionedd yn ei burdeb a'i symledd hanfodol yn gorwedd yn y canol, ac fod y dyn ag sydd yn cyrhaedd rhyw amcan arbenig yn ei hanes yn dylanwadu llawn cymmaint ar yr oes y mae yn byw ynddi ag y mae yr oes arno yntau. Pa beth bynag arall a ellir ei ddweyd yn bennodol am amcan dyn mewn bywyd, anturiaf grybwyll fy nghred y dylai o leiaf olygu rhyw ronyn o ddymuniad i adael y byd yn well nag y cafodd efe ef. Diau fod Carlyle a Spencer yn sylweddoli hyn: yr oedd gan y ddau amcan mewn golwg. Os na fuont yn foddion i foldio yr oes yr oeddynt yn byw ynddi, bydd oesoedd dyfodol byth yn ddyledus iddynt am gael o honynt eu rhoddi ar yr iawn ffordd tuag at ymffurfio yn ol cynllun o gyfiawnder, o burdeb, ardduniant, a rhyddid. "Llaw y diwyd a gyfoethoga," meddai Solomon, ac "Enaid y diwyd a wneir yn fras," meddai mewn lle arall; ond gyda gwyleidd-dra a gostyngeiddrwydd, a chyda phob parch dyladwy i'r gwr doeth, y dymunwn ddyfynu gwireb arall lawn mor bwysig i'w chadw o flaen llygaid y meddwl ac yn nhrysor y cof, sef, fod hyd y nod diwydrwydd ei hunan yn fynych yn ffaelu, ac nad ydyw llafur a dyfalbarhad yn llwyddo *bob amser*, a hyny o herwydd nad ydyw y dyn yn gwybod ei hunan pa beth ydyw amcan ei fywyd ef—'wyr efe ddim i ba beth y mae efe yn llafurio. Gwelir ambell un yn gweithio yn ddiwyd ac o ddifrif, bob amser yn brysur, ac yn ymddangos fel pe nas gallasai hyfforddio colli un amrantiad o'i amser na defnyddio hanner awr o'i oes yn ofer—y mae efe beunydd ar fyn'd—myn'd, myn'd, o hyd ydyw hi gydag ef; ac etto i gyd, yn yr un twll y mae e'n aros er ei holl brysurdeb, ei holl weithgarwch, ei holl ddiwydrwydd a'i ddyfalbarhad, *oblegyd nad oes ganddo amcan mewn golwg*. Y mae efe, yn ddiau, yn annghofio "Nad ar redeg y mae aredig." Bywyd di-amcan ydyw ei fywyd ef. Nid yw bywyd o'r fath yn deilwng o'i fyw: bywyd difudd, diddefnydd ydyw. Oes, y mae y cyfryw rai yn bod—dynion yn byw heb amcan, yn byw heb ystyried fod un amcan uwch i'w bodolaeth ar y ddaear na bwyta ac yfed, ymbleseru, a boddhau eu tueddiadau anifeilaidd. A phe y gofynid i lawer o ieuenctyd Cymru heddyw, pa beth ydyw amcan eu bywyd, neu pa beth ydyw yr *ideal* mawr y maent yn ceisio ymgyrhaedd ato, y mae yn ddiamheu yr atebai y rhan fwyaf o honynt *na feddyliasent erioed am y peth!* Yn wir y mae lle i ofni mai dyma lle y gorwedd y drwg—yn y diffyg meddwl. Y

mae y bobl gyffredin yn esgeuluso eu hunain yn feddyliol; canlatant i ereill feddwl drostynt yn hytrach nag ymroi o honynt i ddefnyddio eu galluoedd meddyliol eu hunain, a'u cyfeirio at amcanion aruchel a gogoneddus teilwng o'r creadur galluocaf, hyd yn hyn, beth bynag, ar wyneb ein daear ni. Unwaith y ceir dyn i weled y pwysigrwydd o arfer meddwl drosto ei hun, ac i ganfod a sylweddoli yr angenrheidrwydd o ddadblygu ei allu meddyliol a diwyllio ei gynneddfau — yna, ac nid cynt, y ceir ei weled ef wedi gosod ei droed ar lwybr uniondeb, cyfiawnder, a barn; ac yn prysur gyfeirio ei gamrau tuag at yr hyn y mae dyn, yn mhob gwlad ac oes, er dechreuad ei hanes, yn dyheu am dano, ac yn hiraethu yn ddwys am gael gweled ei hunan wedi dyfod yn feddiannol arno, sef HAPUSRWYDD.

(I'w orphen yn ein nesaf.)

Y MESUR ADDYSG NEWYDD.

CYN y flwyddyn 1870 gofelid am addysg elfenol y plant gan gymdeithasau gwirfoddol. Yr oedd dwy gymdeithas o'r fath wedi eu sefydlu yn gynnar yn y ganrif, ac yr oedd y lles a wnawd gan y ddwy gymdeithas yn nghwrs y blynyddau rhwng eu sefydliad a'r flwyddyn 1870 yn fawr. Ond nid oedd a fyno'r Llywodraeth ag un o'r cymdeithasau hyn mewn un modd, nac ychwaith ag addysg. Nid oedd un orfodaeth ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol; ac yr oedd y mwyafrif mawr o honynt yn esgeuluso gwneyd hyn; a'r canlyniad o hyn oedd fod addysg mewn cyflwr isel iawn. Yr oedd yr ysgolion yn anaml; ac nid oedd yr addysg a gyfrenid ynddynt ond o natur gyffredin iawn.

Yn y flwyddyn 1870 dygwyd mesur i fewn i'r Senedd, amcan yr hwn oedd gorfodi trigolion gwahanol blwyfi neu ardaloedd lle nad oedd ysgolion i'w cael yn barod i ethol Byrddau Ysgol, y rhai oeddynt i ofalu fod darpariaethau yn cael eu gwneyd i addysgu'r plant yn eu dosparth. Gellir edrych ar y ddeddf hon (yr un 1870) fel un o'r rhai mwyaf bendithiol sydd wedi eu gosod ar ddeddflyfr ein gwlad yn ystod y ganrif. Ond yr oedd llawer o ddiffygion yn y gyfraith hono, fel y cydnabyddir yn awr gan hyd y nod ei phrif gefnogwyr ar y pryd. Yr oedd un o'r cymdeithasau, at y rhai y cyfeiriwyd uchod, dan nawdd y blaid eglwysig, a pheidiwyd gwneyd deddf 1870 yn gyffredinol o herwydd gwrthwynebiad y blaid hon i hyny, gan yr ofnent y byddai hyny yn lladd yr Ysgolion Cenedlaethol a gynnelid ganddynt hwy; ac mewn canlyniad i hyn, mae ein cyfundrefn addysgol mewn cyflwr annhrefnus iawn. Pe buasai sefydlu Ysgolion Byrddol wedi ei wneyd yn fater gorfodol yn mhob man trwy'r deyrnas gan ddeddf 1870, ni fuasai hyn felly; o leiaf, i'r graddau ag y mae heddyw.

Byth oddiar 1870, mae'r blaid eglwysig wedi bod yn anesmwyth iawn am nad oedd yr Ysgolion Cenedlaethol yn cael cynnorthwy

arianol digonol gan y Llywodraeth; ac y maent wedi bod yn diflin weithio mewn amser ac allan o amser er cael gan y Llywodraeth i gefnogi'r ysgolion hyn yn well. O'r diwedd, maent wedi llwyddo, o herwydd, heb un amheuaeth, dyna yw prif amcan y mesur sydd newydd ei osod o flaen y Senedd gan y Llywodraeth.

Mae ein darllenwyr, gynnifer o honynt o honynt ag sydd yn teimlo dyddordeb mewn materion o'r fath hyn, eisoes yn gyfarwydd â phrif ddarpariaethau y mesur, fel nad oes angen cyfeirio atynt yma.

Mae ynddo lawer o nodweddau rhagorol; a phe buasai ei awdwyr (sef y Llywodraeth) yn dewis, gallent, trwy driniaeth deg a pharodrwydd i dderbyn y cyfryw welliantau ag a fyddent yn tueddu i'w wella a'i wneyd yn fwy effeithiol, ei wneyd yn fesur tra derbyniol, ac yn welliant mewn amryw gyfeiriadau ar y gyfundrefn bresennol; ond ofnwn yn fawr nad felly y bydd, ac nad yw y Llywodraeth wedi ei ddwyn i fewn yn gymmaint er gwneyd y gyfundrefn addysgol yn fwy perffaith, ond gydag amcan arall hollol wahanol.

Gellir galw sylw at y diffygion canlynol yn y mesur:—Tra yn ychwanegu at y rhodd flynyddol i'r Ysgolion Cenedlaethol, nid oes un darpariaeth yn cael ei wneyd i adael i'r bobl gael llais yn llywodraethiad y cyfryw ysgolion; mae yn taflu rhwystrau ar ffordd yr Ysgolion Byrddol, yn tueddu i'w gwneyd yn llai effeithiol, ac hyd y nod i ddyddimu y rhai sydd ar gael yn awr; mae ei ddarpariaethau ar gyfer cyfranu addysg grefyddol yn yr ysgolion yn dra sicr, mewn llawer o fanau, o arwain i drwbl.

A'r diffyg diweddaf y mae a fynom ni yma yn benaf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfranu addysg grefyddol fel hyn:—Os bydd rhieni nifer rhesymol o blant yn gofyn fod addysg grefyddol o natur neillduol i gael ei chyfranu i'w plant, rhaid i oruwchwylwyr yr ysgol ganiatau i drefniadau neillduol gael eu gwneyd ar gyfer cyfranu y gyfryw addysg grefyddol. Gall y darllenydd ar unwaith weled beth fydd effaith y ddarpariaeth pe cymmerid mantais gyffredinol arni. Un effaith yn ddiamheu fydd dyfnhau y teimlad sectyddol sydd eisoes mor amlwg a chryf yn ein gwlad. Melldith Cymru heddyw yw sectyddiaeth; a dylai addysg, yn anad dim, gael ei chadw yn glir rhagddo. Ond ofnwn (ac o'r braidd na theimlwn yn sicr) os y pesir yr adranau sydd yn darparu ar gyfer cyfranu addysg grefyddol yn yr ysgolion elfenol, y bydd y teimlad sectyddol yn fuan yn fwy cryf nag erioed; ac yn waeth na'r cwbl, fe wneir y plant yn sectariaid. Ar un olwg, mae'r darlun a gyfyd o'n blaen pan yn meddwl am effeithiau'r darpariaethau hyn yn chwerthinllyd i'r eithaf; ond ar y tu arall, maent yn ddifrifol hefyd. Gobeithiwn fod digon o garwyr gwir addysg yn ein Senedd fel ag i wneyd i ffwrdd heb fawr seremoni a'r darpariaethau plentynaidd hyn.

Trueni fod y fath beth a sectyddiaeth yn cael lle i wthio ei ben hagr i fewn i'r cwestiwn hwn o gwbl. Eisieu gwneyd ein cyfundrefn addysgol yn fwy perffaith ac effeithiol sydd; ac y mae pob un sydd yn caru addysg yn gwneyd ei oreu i'w pherffeithio a'i gwneyd yn fwy effeithiol; ond y mae yr hwn sydd yn caru sect yn fwy nag y

mae yn caru addysg yn rhwystr parhaus ar y ffordd i ddwyn hyny oddiamgylch.

Dymunem, fel y sylwyd eisoes, weled ein deddfwyr yn ymgymmeryd ag ystyried y mesur hwn, sydd yn awr ger eu bron, mewn yspryd priodol—yspryd fydd yn dangos mai eu hunig amcan yw gwneyd y gyfundrefn addysgol yn fwy perffaith ac effeithiol, gan adael o'r neilldu bob yspryd plaid a sect, o herwydd mae yn y mesur lawer o bethau da; ac y mae ynddo hefyd lawer o bethau drwg a niweidiol. Dymunem weled yr hyn sy dda ynddo yn cael ei gadw, a'r hyn sy ddrwg a niweidiol ynddo yn cael ei symmud ymaith. Ond ofnwn nad yn yr yspryd hwn yr ymgymmerir a'i ystyried. Amser a ddengys.

PHILOS.

MIS MAI.

Mis Mai—mis y mêl! pwy na lona pan ei gwel?
Mis y teg belydrau haul—mis y blodau fyrdd eu dail.

Mis Mai—mis y gôg! gwisga'n gwlad â phrydferth glog;
Tan bersawrus flodau mwyn y mae'r ardd, y berth, a'r llwyn.

Mis Mai—mis yn rhwydd gwena'r pruddglwyf yn ei wydd;
Y mae'n gwneuthur ger ein bron anian hen yn newydd lon.

Mis Mai—mis y cân myrdd a mwy o adar mân;
Ar y weirglodd yn y ffridd nyth gan bob aderyn sydd.

Mis Mai—mis o Haf! dengys hael fendithion Naf;
O na fyddai swynion Mai yn dragwyddol i barhau.

Llanybyther. D. O. JENKINS.

DR. SION CENT.

BLODEUODD o'r flwyddyn 1350 hyd 1420. Dyna iddo oddeutu 70 o flynyddau, sef oedran cyflawn yr addewid; ond os gwir y traddodiad ei fod yn 120 mlwydd oed pan y bu farw, cafodd ei eni felly yn y flwyddyn 1300—yr un flwyddyn a'r enwog Ddafydd ab Gwilym, yr hwn a fu farw yn 1367, ac a gladdwyd yn Mynwent Talyllychau. Ond hyd y gwyddom, nid oes ond ychydig iawn wedi ei ysgrifenu y gallwn ei alw yn hanes i ddybynu arno am helyntion bywyd gwrthddrych ein hysgrif; a'r hyn a geir allan o hen lawysgrifau, nid ydynt ond nodiadau bratiog ac annyben ar y goreu. Etto, nid ydym yn rhyfeddu llawer am hyn ychwaith, oblegyd gellir dweyd yn gywir yr un fath am amryw ereill o'i gydoesolion enwog. Ychydig sydd ar

glawa o hanes D. ab Gwilym, rhagor na'r hyn y mae ei weithiau yn lefaru am dano. Ychydig neu ddim wyddys hefyd am amgylchiadau bywyd Trahaern Brydydd Mawr, er mai efe, meddir, yw awdwr Gweddi yr Orsedd Farddol, "Dyro, O Dduw, dy nawdd," &c. A dyna Ddafydd Nanmor, Bedo Brwynllys, Hywel Swrdwal, Gryffydd Gryg, Iolo Goch, ac amryw ereill o feirdd rhagorol, y rhai a fuont yn eu hoes yn sêr o'r maintioli mwyaf yn ffurfafen llenyddiaeth ein cenedl; er hyny, gellir dweyd yn eithaf priodol am danynt mai ychydig iawn, iawn, o hanes "eu hap a'u helynt" sydd wedi ein cyrhaedd ni, oddigerth yr hyn ellir loffa o'u gweithiau. O'r braidd y gwyddom yn mha le eu claddwyd, o herwydd nid oes faen coffa am un o honynt yn unman; ond erys eu gweithiau yn gofgolofnau a fytholant eu henwau, pa le bynag y gorwedda eu cyrff. Y maent, er wedi marw, yn llefaru etto. Felly am Sion Cent: y mae ar glawr rai cyfeiriadau o berthynas i'w alluoedd fel bardd, ac am ei ddysgeidiaeth a'i wybodaeth Ysgrythyrol, fel un o brif dduwinyddion ei oes, yn nghyd a rhyw nifer bychan o ddolenau at ffurfio cadwyn o hanes amgylchiadau yr oes y blodeuodd ynddi; ond gwasgaredig ac annghyflawn iawn ydynt mewn cyferbyniad i'r gwrhydri a'r gorchestion y mae traddodiad yn dadogi i Sion Cent; a thrueni o'r mwyaf ydyw na fuasai genym ragor o hanes am y gwron enwog, oblegyd efe fu seren foreu diwygiad moesol a chymdeithasol yn Nghymru. Fel y bu Wicliff yn Lloegr, y bu Sion Cent yn Nghymru.

Wrth ein bod yn ceisio dylyn llinellau ei gymmeriad fel duwinydd a bardd, yr ydym yn canfod ar unwaith ei fod yn rhywun mawr—ïe, mawr ar ei ben ei hun—yn fwy ac yn uwch na neb o'i gydoesolion; ac yn ein barn ostyngedig ni, yr oedd yn llanw y cyfenwad o fod yn gymmeriad nodedig, ac yn sefyll goruwch pawb o'i gwmpas mewn bob rhagorion sy'n gwneyd dyn yn fawr.

Cawn ei fod yn cael ei gydnabod gan ysgolheigion yr ysgolor dysgedicaf yn ei oes; fel bardd, yn uchelgamp ei fydi ac arddunol pi amgyffredion; ac fel duwinydd, yn rhagori ar yr holl wyr eglwysig. Nid rhyfedd felly i ddyn ac ynddo gynnifer o gydgyfarfyddiadau a nodweddion mor ddysglaer, allu cerfio ei enw mor ddwfn ar gof gwlad, a rhoddi bodolaeth i gynnifer o draddodiadau mor rhamantus am dano ei hun, oblegyd daeth enw Sion Cent yn air teuluaidd drwy yr holl wlad, a phlethwyd ei wrhydri dihafarch yn chwedloniaeth gyffredin y werin ofergoelus. Pa ragoriaethau bynag a berthynent i'w flaenafiaid ac i'w olafiaid, ni thadogwyd i un o honynt y filfed ran o wrhydri ag a dadogwyd iddo ef. Myn y gwir fawr ei le yn y byd; ac os na cha'r parch a haedda, bydd yr anmharch yn gyfartal i'w fawredd. Felly gyda gwrthddrych ein hysgrif. Yr oedd yn wir fawr; yr oedd yn brif arwr ei oes; ac yr oedd yn rhaid i'w enaid mawr gael lle mawr yn y byd. Gwnaeth waith mawr yn ei ddydd a'i dymhor, a thorodd ei enw mewn llythyrenau mor annileadwy o fawr ar eurlafnau urddas ac enwogrwydd bythol, nes i'w elynion, yn eu digllonedd a'u cynddaredd tuag ato, roddi iddo y cyfenwad mawr, ***mawr***, o'i fod yn dal cyfeillach a'r diafol!

Nis gallwn ymattal yn y fan hon heb roddi un dyfyniad allan o Coxe's *History of Monmouth* fel enghraifft o lawer o'r chwedlau diraddiol a daenwyd am dano er ceisio gwrthweithio dylanwad ei ddysgeidiaeth a'i ymegnion gyda'r werin :—"Y mae Grosmont yn fyw gan ymdrechion Sion Cent; merched a gwragedd, yn nghyd a gwyr a gweision, a gydunant i adrodd, gyda ffraethineb cellweirus, gyfres o chwedlau tra nodedig, ac heb ynddynt yr annghydgordiad lleiaf mewn perthynas a'r dynsawd rhyfeddol hwn, Fel am Doctor Faustus, dywedir iddo wneyd cynghrair a'r diafol; ond bu Sion yn fwy llwyddiannus nag y bu Faustus: trwy ei gyfrwysdra efe a osgödd delerau y cytundeb oedd rhyngddynt, ac a faeddodd dywysog y fagddu yn ei fywyd a'i farwolaeth" (pen. 34). Ond yr hyn a'i gwna yn fwy edmygedig gan drigolion yr ardal hon yw ei garedigrwydd tuag atynt yn adeiladu pont dros afon Mynwy, yr hon a godwyd mewn trwch noswaith gan un o'i ysprydion cyfeillgar. Nid yw hyna ond megys un enghraifft o'r lluaws chwedlau a daenwyd am dano, ac a gredwyd fel Efengyl gan lawer—ei fod yn ddïos yn dal cyfeillach anwyl a'r gwr du. Ond gadawn y chwedlau yn y fan hon, a phrysurwn at rywbeth mwy sylweddol yn nglyn a hanes y dyngarwr rhagorol hwn.

EI FYWYD BOREUOL.

Mae cryn dipyn o amheuaeth yn nghylch bywyd boreuol Sion Cent, yn neillduol amser ac ardal ei enedigaeth. Dywed awdwr galluog *Enwogion Cymru* iddo gael ei eni o fewn i Arglwyddiaeth Cilgeran yn Mhenfro, heb un nodiad na chyfeiriad am hyny, tra y dywedir yn fwy diamwys yn yr *Antiquity of English Franciscans*, tud. 159, iddo gael ei eni yn Nghasgwent (Chepstow) yn Mynwy. Mae Leland am fod yn fwy pendant a sicr yn ei fater, ac yn dweyd, "He was bred in Wales" *(Scrip. Brit.*, tud. 376), gan feddwl, efallai, fod hyny yn ddigon, heb fyned i'r drafferth i chwilio na nodi y fan a'r ardal ei ganwyd; dichon y credai fod "in Wales" yn ddigon, os gwyddai yn amgenach ei hunan. Ond cesglir yn wahanol i hyn oddiwrth nodiadau mewn hen lawysgrifau sydd ar gael, ac sydd hefyd yn rhoddi mwy o wybodaeth i ni am ei dymhor boreuol na'r rhai a ddyfynasom.

Y mae yn wir nad oes ond prin coffa am ei rieni na'u henwau, na than ba fath amgylchiadau y dygwyd ef i fyny yn blentyn ar eu haelwyd. Y mae llen dywell annghof dros yr oll oddigerth hyn, sef fod ei rieni yn byw mewn ardal o'r enw Cwm Tridwr, yn Mhlwyf Eglwys Ilan, Morganwg. Beth oedd eu hamgylchiadau—tlawd a'i cyfoethog, nid yw hyspys; ond dyna yr ardal wrth bob tebyg, y gwelodd ein harwr oleuni dydd gyntaf yn ei fywyd. Fel cadarnhad i hynyna, nodwn a ganlyn. Yr oedd iddo ewythr, brawd ei fam, o'r enw Dafydd Ddu, yn byw mewn lle o'r enw Llwyn Dafydd Ddu, yn Mhlwyf Pentyrch, yr hwn dy sydd yn sefyll hyd y dydd heddyw. Y mae yn dra thebyg mai y person hwn roddes yr enw i'r ty, fel y mae wedi dygwydd lawer tro. Y mae yn ymddangos

fod y Dafydd Ddu hwn yn ddyn tra dysgedig, gan y dywedir am dano ei fod yn addysgu pawb a ddeuent ato yn "rhad ac yn rhodd" mewn Lladin, Cymraeg, Rheolau Barddoniaeth, a phob gwybodaeth gyffredin. Gwelwn felly ei fod megys yn cadw ysgol, ac i gadarnhau hyn o dyb, cawn fod y bachgen Sion yn derbyn ei addysg foreuol dan hyfforddiad ei ewythr Dafydd Ddu. Yr oedd ei awydd a'i syched mor angerddol am addysg a gwybodaeth, fel na luddid ef gan unrhyw beth rhag myned bob dydd at ei ewythr i dderbyn ei wersi. Gwelid ef yn droednoeth, coesnoeth, yn myned trwy afon Taf ar y tywydd gerwinaf, yn nghanol rhew ac eira, gan faint ei awydd i gyrhaedd gwybodaeth. Gwelwn yn yr amgylchiad hwn mor gywir y dywediad mai "y plentyn yw tad y dyn." Ni fu enghraifft gywirach nag yn hanes y bachgen Sion.

Yr oedd yr yni a'r ymroad, a'r gallu a ddangosai y bachgenyn hwn i dderbyn addysg yn nhymor ei ieuenctyd yn ddangoseg eglur o'r hyn a fyddai ef pan wedi cyrhaedd oedran gwr. Yr oedd ei gynneddfau cryfion a bywiog i dderbyn addysg yn ieuanc yn gyfartal i'w alluoedd meddyliol, a'i ddyspwylledd i drosglwyddo addysg i ereill pan wedi myned yn henafgwr oedranus. Rhaid wrth allu i dderbyn yn gystal a gallu i roddi addysg; nid yn fynych y mae'r naill heb y llall. O gylch yr adeg hon, pan nad oedd Sion etto ond megys blagur gwan yn dechreu ymddadblygu yn ngwanwyn bywyd, y bu farw ei rieni, gan adael Sion, druan o hono, yn amddifad, a hyny wrth bob tebyg yn ieuanc iawn. Nid oes ar glawr hyd y gwyddom am dano, un hyspysrwydd am amgylchiadau eu marwolaeth, nac ychwaith a oedd iddynt blant ereill i alaru ar eu hol; y mae llen annghof dros y cyfan. Etto gallwn gasglu gyda chryn lawer o briodoldeb iddynt farw o'r haint echryslawn hwnw a ymwelodd â'n gwlad oddeutu y flwyddyn 1349, sef yr "haint du," ac a elwir yn Saesneg *black death*. O'r haint ofnadwy hwn y bu farw Ifor Hael a'i briod, noddwr twymgalon Dafydd ab Gwilym.

Boed hyn fel y bo, o hyn allan cawn fod Sion yn trigo gyda'i ewythr Dafydd Ddu yn y Llwyn. Dichon y gwelai ef fod yn y crwt argoelion—y byddai iddo ragori y tuhwnt i neb yn gyffredin—ac iddo drwy hyny ymgymmeryd at ei noddi yn fwy o herwydd y gallai gael gwell mantais a chyfleusdra i'w hyfforddi a'i ddiwyllio mewn addysg a gwybodaeth, ac efallai mewn ymarweddiad ac ymroddiad crefyddol.

Ond nid oedd i'w ewythr ddinas barhaus yn Morganwg. Beth fu yr achos nid ydym yn gwybod, ond bu raid iddo symmud o ardal Pentyrch i fywiolaethu yn nghymmydogaeth Caerlleongawr, a deallwn iddo gymmeryd ei nai Sion gydag ef. Wrth hyn, deallwn fod ei ewythr yn dal urddau eglwysig, gan iddo symmud i "fywiolaethu" i gymmydogaeth Caer, ac y mae hyn yn rhoddi awgrym dra eglur fod cyssylltiadau teuluaidd Sion o du ei fam, beth bynag am ochr ei dad, yn uwch na'r cyffredin. Ond i ddychwelyd. Felly, bu raid i Sion ganu yn iach i'w gyfoedion yn ardal Pentyrch, a dylyn ei ewythr i dir y Gogledd. Paham y gorfu i'r crwt fyned gyda'i

ewythr ? Tybed nad oedd iddo drâs a charenydd yn ardal ei enedigaeth, fel ag i gymmeryd at ei noddi a'i amddiffyn ? Yr ydym yn credu nad oedd iddo un tylwythyn yn unman. Y mae yn bossibl fod yr haint wedi ysgubo yr holl berthynasau, fel na adawyd yn fyw ond yn unig Dafydd Ddu a'i nai bychan.

Dros ba gyhyd o amser y bu ei ewythr yn bywiolaethu yn y Gogledd, nid oes sicrwydd, eithr gellir casglu na fu tymhor ei wasanaeth yn hir iawn yno, o herwydd efe a fu farw ac a gladdwyd mewn ardal estronol, gan adael ei nai ieuanc yn unig, amddifad, dinawdd, a hollol ddiymgeledd, yn nghanol estroniaid, ac heb neb i gymmeryd trugaredd arno yn y byd mawr—sefyllfa druenus a thorcalonus i'r eithaf, onide ? Yr unig beth a gofnodir yw, ddarfod i'w ewythr ei addysgu yn dda, a hyny " yn mhob gwybodau bydawl a goluchwydawl," yr hyn a brofodd i Sion yn fil rhagorach etifeddiaeth na llawer o aur ac arian.

GWERNYFED.

(I'w barhau).

ADDOLIAD HEB GRIST.

DYWED Iesu Grist fod " yr awr yn dyfod pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd ; " ac mai " y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli Ef." Heddyw, gan lawer o'r rhai a alwant eu hunain ar ei enw, gelwir yr addoliad hwn yn " addoliad heb Grist." Yn marn y cyfryw nid yw addoliad ond ffug addoliad os na fydd enw Crist yn cael ei ddefnyddio yn barhaus ; ac nid yw gweddi yn werth dim os na fydd enw Iesu Grist yn cael ei lusgo i fewn iddi yn rhywle, gan nad pa un a fydd cyssylltiad yn gofyn hyny ai peidio. Yn ol y safon hon o farnu gweddi, nid yw Gweddi'r Arglwydd amgen geiriau gwag, gan nad oes son am Iesu Grist ynddi o gwbl ; ac etto edrychir ar y weddi hon yn gyffredin fel y patrwn goreu o weddi sydd genym. Yn y fan hon y mae tipyn o annghyssondeb i'w weled yn amlwg : mae dynion yn defnyddio Gweddi'r Arglwydd, yn yr hon nad oes son am Iesu Grist, ac yn ei hystyried yn weddi Gristionogol ; a phan y mae'r cyfryw ddynion yn dygwydd troi i fewn i un o gapelau ein henwad, ac yn dygwydd clywed gweddi yn cael ei hoffrymu yn yr hon na sonir am Iesu Grist wrth ei enw, er yn hollol gydfynedol ag yspryd Iesu Grist, esgynant ar unwaith i ben y fainc farnol, a chyhoeddant yn ngwydd y byd nad yw ein haddoliad yn addoliad Cristionogol. Mae'r cyfryw ddynion yn methu gweled yn mhellach na'r wisg allanol. Adnabyddant swn geiriau, ond nis gallant bob amser weled ystyr y geiriau, neu (yr hyn sydd yn fwy pwysig fyth), nis gallant weled yr yspryd a'r sylwedd sydd tu cefn i'r geiriau. Nis gallant adnabod Cristion, os na fydd wedi gosod *label* i fyny mewn man digon amlwg, fel y gall pawb

ei weled; a rhaid i'r *label* hwn yn ddieithriad fod yn gynnwysedig yn "Rwy'n credu fel hyn, neu fel arall," neu, "yr wyf yn mynychu'r capel hwn neu'r eglwys acw." Nis gall y cyfryw adnabod y Cristion wrth ei ymarweddiad, yr hon (sef, trwy yr ymarweddiad, yn ol Iesu Grist) yw'r unig ffordd i adnabod y gwir Gristion. Nis gallant adnabod gwir weddi neu addoliad, os na fyddant yn meddu gwisg allanol neillduol. Iddynt hwy nid oes gwir addoliad na gwir weddi, os na fydd yn cael ei hoffrymu mewn rhyw ffurf neillduol, a'r ffurf hono yr un a ddefnyddir ganddynt hwy eu hunain. Nid ydynt wedi meddwl fod amrywiaeth yn y dull allanol o addoli a gweddïo yn bossibl, ac nid yw gwir addoliad neu gwir weddi yn ymddibynu ar eiriau a ffurfiau; nac ychwaith wedi meddwl y gall ereill ydynt yn addoli ac yn gweddïo mewn dulliau a ffurfiau a geiriau gwahanol iddynt hwy fod yn addoli yn llawn mor drwyadl a derbyniol a hwythau. Mae dyn yn naturiol yn fod addolgar. Mae wedi bod felly trwy gydol ei hanes. Ond y mae ffurfiau addoliad mor lluosog braidd a ser y nef. Yr ydym ni yn gyfarwydd a hanes y genedl Iuddewig. Iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am y lenyddiaeth grefyddol odidog a chyfoethog a ddefnyddir genym yn ein haddoliadau o Sul i Sul. Dengys y lenyddiaeth hon o'r eiddynt fod yr Iuddewon yn genedl addolgar. Ond wrth edrych dros hanes y genedl, gymmaint o amrywiaeth a welwn yn eu ffurfiau o addoliad. Ac yr oedd un rhan o'r genedl, yn amser Iesu Grist, yn credu mai dim ond un man iawn oedd i addoli, sef, yn Jerusalem; ac yr oedd y rhan arall yn credu yn llawn mor benderfynol mai ar Fynydd Gerizim oedd y man iawn i addoli. A daeth Iesu Grist, ac Efe ei hun yn Iuddew, a dywedodd wrthynt fod pob man yn fan iawn i addoli, gan daflu o'r neilldu felly y syniad oedd wedi bod yn achos ymraniad ac o gymmaint casineb ac anfrawdgarwch rhwng y ddwy blaid, a rhoddi iddynt syniad ysprydol am addoliad nad oeddynt erioed o'r blaen wedi dychymygu am dano, ac nad yw y byd etto wedi gweled ei ystyr yn gyflawn. Ond nid yn mysg yr Iuddewon yn unig y gwelir yr elfen addolgar. Nid oes genym hanes, os nad wyf yn camsynied, am un genedl mor isel mewn gwareiddiad a dadblygiad fel nad oedd yn credu mewn bod uwch na dyn, ac yn ceisio ei foddloni trwy ei addoli mewn rhyw ffurf neu gilydd. Mae'r byd crefyddol yn cael ei ranu i ryw ychydig o grefyddau mawr. Mae Cristionogaeth yn un o honynt. Ac i bob un o'r crefyddau hyn fe berthyn llenyddiaeth grefyddol, neu Feiblau, sef, casgliadau o ddywediadau doeth ac o ysgrifeniadau eu sefydlwyr a'u proffwydi ar wahanol gyfnodau yn eu hanes. Ac ynddynt oll ceir addysgiadau gwerthfawr, syniadau uchel am foesoldeb, a drychfeddyliau godidog am natur, Duw, dyn, a dyledswydd dyn. Yn yr oll o'r llyfrau hyn gwelir un elfen yn amlwg iawn, sef, yr elfen addolgar. Gwelwn felly fod yr elfen addolgar yn un gyffredinol. Ac mor amrywiol ydyw'r ffurfiau yn ol pa rai yr offrymir addoliad! Mae'r amrywiaeth yn ddiderfyn bron. Gwelwn yr amrywiaeth hon yn yr Eglwys Gristionogol. Gymmaint o wahaniaeth sydd, er enghraifft, rhwng

y ffurf addoliad syml a dirodres a geir mewn arferiad yn nghapelau Cymru a'r ffurf addoliad a geir mewn arferiad yn eglwysi Pabyddol ein byd, neu hyd y nod yn nifer fawr o eglwysi sefydledig ein gwlad. Yn awr, yr wyf yn hoffi meddwl y gall dynion addoli yn wirioneddol yn mhob un o'r ffurfiau hyn. Nid wyf yn credu syniadau duwinyddol yr Eglwys Babaidd; nis gallaf am foment ganiatau'r honiadau a wneir yn gyffredin gan yr Eglwys hon; a daw i'm cof yr erlidigaethau creulawn sydd wedi eu hachosi ganddi. Ond buasai yn hollol anghristionogol i mi i ddyweyd nad yw yn bossibl addoli Duw yn iawn yn yr eglwysi Pabaidd. Credaf yn hollol i'r gwrthwyneb—y gall y Pabydd addoli Duw yn llawn mor wirioneddol a neb—addoli mewn yspryd a gwirionedd, yr hwn yw'r addoliad derbyniol a chymmeradwy, yn ol fel y dywed Iesu Grist. Bum yn eu haddoliad; a theimlwn ar y pryd fy mod mewn awyrgylch addolgar—teimlwn fel pe wedi fy nwyn yn agos at ac i ymdeimlad byw o bresennoldeb Duw, yr hyn yw gwir ddyben pob addoliad. Ac y mae yr un peth yn wir am addoliadau cyfundebau ereill. A phan y cofiwyf hyn oll, ac y clywaf ambell i ddyn yn cyhoeddi ei anathema uwch ben pob ffurf o addoliad sydd yn wahanol i'w un ef, synaf at ei gulni, ei ryfyg a'i ragfarn di-gariad. Clywir weithiau am "addoliad heb Grist;" ac hefyd am "addoliad Cristionogol." Beth olygir wrth, a pha beth yw, "addoliad heb Grist." A ydyw yn golygu addoliad yn yr hwn na ddefnyddir yr enw Crist yn aml? A pha beth yw addoliad Cristionogol? A olyga addoliad yn yr hwn y mae'r enw Crist yn cael lle blaenllaw yn ein gweddïau ein canu, a'n pregethau? Yn ol Iesu Grist mae'r gwir addoliad yn golygu addoliad mewn yspryd a gwirionedd. A dyma yw'r addoliad Cristionogol. Ac y mae "addoliad heb Grist," o ganlyniad, yn golygu rhywbeth hollol wrthwynebol i hyn—addoliad yn yr hwn nad yw'r yspryd a'r galon yn cymmeryd yr un rhan, yn yr hwn nad oes yr un amcan didwyll a difrifol, yr un dyhead gwirioneddol am gymundeb a Duw. Mae yn bossibl i ni addoli mewn gwirionedd, os yn addoli yn yspryd Iesu Grist, hyd y nod pe na wnaem gymmaint a son am ei enw unwaith; ac y mae yn llawn mor bossibl ar y tu arall, i'n haddoliad fod yn "addoliad heb Grist," hyd y nod pe y defnyddiem enw Crist yn barhaus trwy ein holl weddïau, a'n canu a'n pregethau. Yr wyf yn hoffi meddwl fod gwir addolwyr yn mhob cenedl, oes, Eglwys, enwad, a chred, gan nad yn mha ffurf bynag y mae'r addoliad yn cael ei offrymu. Buasai yn achos gofid i mi feddwl mai dim ond un ffurf iawn o addoliad sydd, ac felly hefyd i feddwl fod yr holl luoedd addolwyr yn mhob man trwy'r oesau wedi addoli yn ofer, os nad oeddynt yn addoli yn ol rhyw ddull neu ffurf neillduol. Mae pob gwir addoliad yn dylanwadu yn ddaionus ar ddyn; ac y mae edrychiad i fyny at Dduw mewn addoliad yn tueddu i buro natur yr addolwr. Ac y mae pob addolwr o'r fath, gan nad beth yw ffurf allanol ei addoliad, neu, gan nad pa un a oes ffurf allanol i'w chael o gwbl, yn addolwr mewn yspryd a gwirionedd; ac hefyd yn addolwr Cristionogol.

A.B.

Y CRISTION AR EI LINIAU.

Ti, felchyn bydol, saf yn ol yn awr;
Paid, paid, O! paid â diystyru ffurf
Y Cristion ar ei liniau.
Ystyria gynnwys ei "ar ei liniau" wrth draed Ior:
Gwel odidowgrwydd ei weddigar lef
Gerbron Duw, wrth yr allor weddi.
Ysprydoledig drem! y Cristion ar ei liniau
Rhwng nefoedd a daear, yn adrodd ei gyfrinach
Wrth Greawdwr cyrau'r cread derch, ei Dduw.
Annesgrifiadwy fawredd!! dyn a Duw—
Meidroldeb ac Anfeidroldeb—fel
Pe wedi bod yn bwyta o ffrwyth y gwaharddedig bren,
Yn ymgofleidio yn nyfnderoedd edifeirwch prudd, pur.
Lachareiddiol olygfa! pwy a fedr blanu darlun o hono?
Deued angel â'i bwyntil i'w baentio:
Gosoder y darlun ger bronau ieuenctyd yr eglwys:
Ar waelod y darlun gosoder y geiriau canlynol:—
Ddyn ieuanc, plyg ar dy liniau yn moreu dy fywyd,
"A chofia dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid."
Bydd ddystaw, ddirmygedig ragfarn erch!
Rhy barod wyt â'th wawdiol fys
I'w bwyntio at y Cristion dewr
Sy'n dal y byd rhag myn'd yn ddeuddarn i ddifancoll fro!
Clyw, ragfarn lom, paid yngan gair! anfuddiol ydwyt i'r ddynoliaeth;
Gwna frys i lamu o fodolaeth;
Nis gelli fwrw sill o anfri ar y Cristion glân.
O! Wynfydedig Gristion hardd!
Gwelir ef o dro i dro, yn isel ar ei liniau,
Yn anfon gweddi dros bechadur breuol, brwnt, i wlad yr hedd:
Ei Ner a edrych ar ei weddi ireiddiol, daer,
Yn esgyn grisiau gostyngeiddrwydd têr o'i galon dirf, i'w hateb.
Y gwynt mewn syndod o hirbell saif i wrandaw
Ar y Cristion yn gweddïo Duw yn y cyssegr!
Ust! clywch! mae ei weddi eiriol yn sugno hedd
A bywyd o stor ddigonol y Goruchaf Dduw!
Mae iaith gwirionedd yn eglur sibrwd wrthym,
Mai gwyn iawn yw byd y Cristion nefanedig.
Cyduna'r nefoedd wèn a Duw i ddweyd y geiriau hyn:—
Weddigar Gristion, mae'th fyd yn wyn yn hyn o fyd,
Ond gwynach fyth a fydd yn myd y saint.

Trebanos. BEN DAVIES.

GOSTYNGEIDDRWYDD.—Mae dyn gostyngedig yn debyg i bren da; po fwyaf y ffrwythau ar y cangenau, iselaf i gyd y plygant.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cymmerodd Cyfarfodydd y Pasc le yn y Nottais, Morganwg, ar ddyddiau Mercher ac Iau, Ebrill 8 a 9, pan oedd y gweinidogion canlynol yn bresennol:—Y Parchn. R. J. Jones, M.A., Llywydd; W. James, Ysgrifenydd; John Davies, R. C. Jones, Dr. Griffiths, Jenkyn Thomas, J. Fisher Jones, Enoch Jenkins, Thomas Jenkins, a W. J. Phillips, gweinidog y lle; yn nghyd â D. J. Jones, D. Evans, Aberdar; a W. John, Wig. Yr oedd y Parch. J. A. Brinkworth hefyd yn bresennol fel cynnrychiolydd Cymmanfa y Bedyddwyr Cyffredinol (Undodaidd), a'r Parch. G. St. Clair, F.G.S., Caerdydd, yr hwn a bregethodd bregeth ddyddorol a chynnorthwyol iawn, sylfaenedig ar y geiriau, "Nid ar fara yn unig y bydd byw dyn."

Nos Fercher, cymmerodd Mr. T. Jenkins, gweinidog etholedig Gellionen, y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, a chanlynwyd ef gan W. James ac R. J. Jones—y blaenaf yn Saesneg a'r olaf yn Gymraeg. Yr oedd y ddwy bregeth yn gymhwys ac argyhoeddiadol, a gadawsant argraff ddofn ar y gynnulleidfa.

Boreu dydd Iau dechreuodd Enoch Jenkins, a phregethodd G. St. Clair yn Saesneg a John Davies yn Gymraeg. Yr oedd mwynhad y gwrandawyr, yn mysg y rhai yr oedd nifer lluosog o'r Wig, yn amlwg ddigon dan ddylanwad y pregethau hyn.

Cafwyd cynnadledd am 2.30, pan y darllenwyd papyr cynnwysfawr gan Dr. Griffiths ar "Yr Eglwys Gristnogol—ei dyledswyddau a'i chyfrifoldeb." Cymmerwyd y papyr i fyny gan Jenkyn Thomas, ac yr oedd sylwadau ac awgrymiadau Mr. Thomas a'r siaradwyr a'i canlynasant yn llawn dyddordeb ac adeiladaeth. Cymmerwyd y gadair yn y gynnadledd gan y Parch. J. P. Southwell, gweinidog yr Annybynwyr Seisnig yn Mhorthcawl. Gwnaeth ei sylwadau o'r gadair argraff foddhaol iawn ar bawb oeddynt yn bresennol. Ar derfyn y gynnadledd pasiwyd penderfyniad unfrydol yn condemnio cynlluniau newydd Mesur Addysg y Llywodraeth, ac yn neillduol yr adran sydd yn rhoddi rhagor o arian y wlad ar gyfer addysg heb gynnrychiolaeth y bobl, ac heb lais gan y bobl yn rheoliad yr addysg hono. Pasiwyd penderfyniad hefyd yn dangos cydymdeimlad â'r Armeniaid, ac yn galw ar y Llywodraeth Brydeinig i wneyd yr oll yn ei gallu i sicrhau iddynt ryddid a breintiau rhyddid; hefyd, benderfyniad i'r perwyl canlynol gyda golwg ar Gyfieithad Diwygiedig o'r Beibl Cymraeg:—"Mewn cyfeiriad at y cynnyg caredig a wnaed ychydig wythnosau yn ol gan berchenogion Cyfieithad Diwygiedig y Beibl Saesneg, i ymgymmeryd â chyhoeddi cyfieithad cyffelyb ar gyfer y Cymry, ar yr ammod fod yr Esgobion Cymreig yn ei gymmeradwyo a'i gefnogi, ein bod ni, fel cynnadledd, yn datgan ein gobaith y cymmer yr esgobion y mater mewn llaw, ac y gwnant eu goreu i'w wthio yn mlaen i derfyniad cynnar a boddhaol." Darparwyd tê cyhoeddus yn yr ysgoldy, ac eisteddodd rhyw dri-ugain i lawr i fwynhau pryd danteithiol oeddid wedi ei barotoi gan rai o fonedd-igesau yr eglwys.

Yn yr hwyr, wrth fod J. Davies, Alltyplaca, yn dechreu'r cwrdd, rhoddwyd tôn ddymunol i'r gwasanaeth, a pharhaodd yr eneiniad hyd y diwedd. Pregethodd R. C. Jones yn hwylus ac effeithiol yn Gymraeg, ac yr oedd pregeth Saesneg Mr. Brinkworth, yn ei symlrwydd a'i phrydferthwch, yn ffurfio diweddglo cymhwys i res o gyfarfodydd a nodweddid drwyddynt gan fesur helaeth o wresogrwydd a brwdfrydedd ysprydol.

Cafwyd cynnulliadau da a gwrandawiad astud, ac yr oedd y canu yn hynod galonog a derchafol. Teimlodd rhagor nag un oedd yn bresennol swyn neillduol datganiad Gweddi'r Arglwydd nos Fercher, pan oedd y cor a'r holl gynnulleidfa ar eu heistedd. Gwnaed casgliadau at drysorfeydd y Gymdeithas Gymreig a Chymmanfa'r Bedyddwyr (Undodaidd).—*O adroddiad y "Christian Life" gan mwyaf.*

NODYNAU GWASGAROG.

Y LLYFR TONAU NEWYDD.

Nid oes genyf ond ychydig i ychwanegu at yr hyn a ysgrifenodd Mr. James i'r Ymofynydd diweddaf parthed y llyfr uchod. Yr ydym yn teimlo yn falch fod yr ammodau a osodwyd o flaen ein heglwysi wedi cael eu derbyn mor unfrydol, ac nis gallwn lai nà theimlo yn falch fod yr ammodau a osodwyd o flaen ein heglwysi, wedi cael eu derbyn mor unfrydol, ac nis gallwn lai nà theimlo yn ddiolchgar am y dymuniadau gwresog a amlygir tuag at lwyddiant y llyfr. Mae yr emynau, sydd wedi eu dewis yn barod, wedi eu darllen yn ofalus gan Mr. James, ac y mae yn bleser genyf allu dweyd ei fod ef yn llwyr foddlon a hwy; mewn gwirionedd, yn cael ei foddhau yn fawr à'r llyfr yn ei wahanol agweddau. Mae yn agos i 350 o'r emynau, a thua hanner y nifer hwnw o'r tonau, wedi eu hargraffu eisoes, ac y mae yr argraffwyr yn prysur weithio wrth y gweddill. Pan fydd y llyfr yn barod ac yn nwylaw ein cantorion, yr wyf yn lled ffyddiog y byddant yn ei ystyried yn llyfr da, ac o gaffaeliad i'r enwad. Yr ydym yn hyderu y bydd yr oll yn barod tuag adeg y Cyfarfodydd Blynyddol. Dros Mr. Eiddil Jones, Mr. Harries, a'm hunan, dymunaf ddiolch yn galonog i bawb sydd wedi ein helpu mewn gwahanol ffyrdd.

J. Hathren Davies.

HANES IESU GRIST I BLANT.*

Yr wyf yn sicr y dylai pawb sydd yn caru achos crefydd rydd, sydd yn rhedeg ar linellau gwybodaeth oraf a beirniadaeth nchaf y

* *Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist*, gan y Parch. D. Evans, Cribin. Pris 2g. Gyda'r post, 2½c. Llanbedr: Argraffwyd gan Gwmni y Wasg Gymreig. Cyf.

ganrif bresennol, fod yn ddiolchgar i'r diwyd a'r diymhongar Evans o'r Cribyn am ei lafur yn parotoi llyfryn ag oedd cymmaint o'i eisieu yn ein holl eglwysi. Yr wyf yn cofio yn dda, pan oeddwn yn hogyn, mai holwyddoreg Dr. Priestly oedd pobpeth gyda phlant yr eglwysi Undodaidd yn Sir Aberteifi: yr oedd yn beth newydd i ni, a mawr yr hoffem ni ef. Llyfryn rhagorol ydoedd, a gwnaeth lawer o ddaioni. Wedi i hwn gilio o'r neilldu, ni tu genym ddim o bwys ar ffurf llenyddiaeth i'r plant hyd nes i'r Parch. Thomas Thomas, ar gais Undeb y Gweinidogion yn Ngheredigion, barotoi, mewn diwyg Gymreig, *Banau Ffydd* gan y Dr. Freeman Clarke. Er fod y llyfryn olaf yn cael ei gydnabod yn gyffredinol y mwyaf gwerthfawr o'i fath, etto, yr wyf yn meddwl ei fod yn rhy anhawdd, yn enwedig i ddosparth o bobl ieuainc. Gan nad beth y rheswm, ni ddarfu i *Banau Ffydd*, er mor rhagorol oedd, gymmeryd yr afael a ddylai ar ein heglwysi, ac yn y rhan amlaf o honynt, mae y copiau, fel mae'n flin dweyd, yn llwydo ac yn mallu mewn rhyw gongl neu gilydd, yn ddisylw gan bawb. Mae Mr. Evans, yn awr, wedi cyflwyno i'n sylw lyfryn rhagorol arall, ac y mae yn perthyn iddo un rhagoriaeth ag sydd wedi bod yn absennol o rai o'r llyfrau a nodwyd, sef symlrwydd. Mae yn hollol ddealladwy i'r gwanaf ei gynneddfau, ac etto wedi ei ysgrifenu mewn yspryd rhydd o bobpeth sydd yn ymylu ar fod yn blentynaidd. Rhenir y llyfr i un bennod ar ddeg, ac ânt yn fanwl pros holl brif ddygwyddiadau bywyd llafurus a godidog y Dyn o Nazareth. Deallaf fod rhai o'n Hysgolion Sul wedi ei fabwysiadu eisoes yn *text-book*, a thrwy help *map* ac ychydig bach o ragbarotoad, gall yr athraw wneyd y gwersi a gynnwysir yn y llyfr yn hynod ddyddorol i'w ddosparth. Mae yr ysgrifenydd yn ceisio gwneyd hyn, a dylynir ef gan yr athrawon ereill, ac ar ben tymhor neillduol, holir yr holl ysgol yn maes ei llafur yn ystod y Suliau blaenorol. Carwn glywed fod ein holl ysgolion yn dylyn rhyw gynllun o'r fath. Gresyn o'r mwyaf fyddai gadael llyfryn mor rhagorol, ac mor anhebgorol i'n pobl ieuainc, gael ei daflu o'r neilldu yn ddisylw. Myner ei feistroli: mae yn sicr yn werth y drafferth i dreulio misoedd i'w astudio. Dylai ein heglwysi fod yn falch fod Mr. Evans wedi darparu ar gyfer dosparth o'n cynnulleidfaoedd sydd wedi ei esgeuluso ormod, sef y plant.

ATHRAW.

RHOI CEINIOG YN Y "SLOT."

Hen ddyfais a geir yn yr India ydyw hon. Yno gosodir y darn arian i fewn, ac mae'r peiriant yn troi ac yn *gwneuthur* gweddi dros y pechadur. Defnyddir y *slot* i lawer pwrpas heddyw yn ein gwlad ni, ond ddim etto, hyd y gwn I, at bwrpas crefyddol. Ond fe ddaw, gan fod miloedd yn ceisio am y ffordd *cheap* o grefydda, ac fe ddaw'r offeiriad pabaidd ac eglwysig i gyfarfod â'r angen. Angen wrth gwrs yw mam dyfais. Yn Amsterdam y mae *slot* wedi ei osod i

fyny, lle, am y geiniog osodir i fewn, ceir bendith y Pab, yn llais y Pab, trwy y *phonograph*. Beth yw crefydd? Ai credo yw? Defod ynte bywyd yw?

CYNNYDD YR EGLWYS.

Y mae yspiwr—gohebydd *Times* mawr Llundain—wedi bod i lawr yn edrych noethni y wlad, ac fel hyn y dywed:—"The conclusion which I had reached at Aberdare was just this, viz.: That the property of the Church in Wales was in proportion to its ritual." Hyny yw, fod llwyddiant yr eglwys mewn cyfartaledd i'w defodaeth. Dywedwch, ai defodaeth yw crefydd? os na, beth yw?

Manion ac Hanesion.

BRONDEIFI.—Ebrill 3, rhoddodd rhai o foneddigesau Capel Brondeifi wledd o dê a bara brith i aelodau'r Ysgol Sul ac ereill yn ysgoldy y capel. Yn yr hwyr cafwyd cwrdd adloniadol yn y capel, ac aeth y plant drwy eu gwaith mewn modd tra chanmoladwy.

CAPELGROES.—Cynnaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de flynyddol dydd Llun, Mawrth 30, pryd y cyfranogodd nifer lluosog iawn o'r danteithion blasus a ddarparwyd gan Mrs. Thomas a Mrs. Evans, Caeglas, a Mrs. Williams, Llanwnen. Wedi i bawb gael eu boddloni ar y danteithion, cafwyd gwledd i'r meddwl, dan lywyddiaeth y Parch. J. Davies, Alltplaca, ac arweiniwyd gan weinidog y lle. Cafwyd cyfarfod llenyddol ardderchog ac hwylus dros ben. Bu ychydig gystadleuaeth, a beirniadodd y llywydd a'r Parch. D. Evans, Cribin. Yr oedd yr adrodd a'r canu yn hynod dlws, ac nis gallaf lai nag enwi y gantores fechan addawol, Miss Elizabeth Davies, Felin-yr-aber, yr hon a ganodd yn rhyfeddol. Wedi talu'r diolchiadau arferol, ymadawodd pawb wedi eu boddloni y tu hwnt i'w dysgwyliadau. Mae cyfarfodydd o'r natur hyn yn llwyddiannus iawn i ddadblygu talentau'r ieuenctyd.

PENTRE, CWM RHONDDA.—Diamheu genyf mai llawen fydd gan luaws perthynasau a chyfeillion y gwr ieuanc talentog a diymhongar, Mr. Lewis Lewis, Ystrad Rhondda, yn Sir Aberteifi yn gystal â chwm ei fabwysiad, glywed ei fod newydd basio yn oruchwyliwr glofaol, a hyny mewn modd anrhydeddus. Ar y 7fed a'r 8fed o'r mis hwn, aeth o Gaerdydd, yn ddiarwybod i'w gyfeillion, ac hyd y nod i'w rieni, ac eisteddodd o flaen *The Board of Examination of the South Wales Mining District*, ac mor wylaidd oedd ei syniad am dano ei hun nes na ddarfu iddo ddychymygu y buasai yn llwyddo i basio arholiad mor bwysig, yn enwedig mewn modd mor anrhydeddus ag y gwnaeth. Foreu Sadwrn diweddaf synwyd ef pan dderbyniodd y newydd uchod. Pan ychwanegaf mai glowr yw Mr. Lewis wrth ei alwedigaeth, a'i fod yn llafurio yn galed bob dydd, ac heblaw hyn mai *self-taught* ydyw, a dim ond tua 25 oed, credaf y cydnebydd holl ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fod rhywbeth yn y gwr ieuanc hwn heblaw ystwff cyffredin, a phriodol dweyd yn ngeiriau yr hen fardd—

"Hyspys y dengys y dyn,
O ba radd y bo'i wreiddyn."

Cefndor yw efe i'r Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, ac y mae yn aelod ffyddlon a gweithgar o eglwys Undodaidd y Pentre.

"Uwch, uwch, uwchach yr êl,
Dringed i gadair angel."

—*Ivor Davies.*

ALLTPLACA. — Cynnaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de flynyddol ddydd Gwener Mawrth 20, pryd y cyfranogwyd gan nifer lluosog o aelodau yr Ysgol Sul ac ereill o'r danteithion blasus a ddarparesid ar eu cyfer gan Mrs. Williams, Plasbach, a Mrs. Williams, Glynhir, i'r rhai y dychwelir yma y diolchgarwch mwyaf diffuant am eu caredigrwydd. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod llenyddol o adrodd, canu, ac areithio, dan lywyddiaeth y gweinidog ac arweinyddiaeth Mr. Thomas Jones, arolygwr yr ysgol. Aeth pawb trwy eu gwaith mewn modd canmoladwy, fel y cadwyd i fyny ddyddordeb y gynnulleidfa hyd y diwedd. Wedi talu'r diolchiadau arferol, ymwahanwyd gyda'r teimlad mai da cedd bod yno. Yr angen mwyaf yn yr ysgol hon ar hyn o bryd yw rhagor o athrawon. Mae yma nifer bychan yn gweithio yn ddiflin, ond y mae eisieu rhagor. Arglwydd y cynauaf a anfono weithwyr i'w gynauaf.

RHYDYGWIN.—Cynnaliwyd yr wyl dê flynyddol mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sul yn y lle hwn ddydd Gwener y Groglith. Yr oedd yr hin ar y diwrnod yn rhagorol, ac yr oedd pobpeth yn cydweithio i wneyd yr wyl yn llwyddiannus. Mwynhaodd y plant a'r athrawon eu hunain yn dda ar y danteithion a ddarparwyd ar eu cyfer gan Mrs. Lloyd, Felindre; Mrs. Jones, Felinfach: a Mrs. Davies, Gwrthwynt Bydded i'r gwragedd hyn dderbyn ein diolchgarwch mwyaf diffuant am eu caredigrwydd. Wedi i bawb gael eu digoni o'r pethau goreu, dechreuwyd y cyfarfod llenyddol, a dewiswyd Lewis Williams, gweinidog yr eglwys, i'r gadair. Arweiniwyd y cyfarfod yn fedrus gan Mr. Evan Jones, masnachwr, Felinfach. Cafwyd anerchiadau pwrpasol i'r amgylchiad ar ddechreu y cyfarfod. Aeth pawb drwy eu gwaith yn ganmoladwy. Yr oedd y canu a'r adrodd yn dangos ffrwyth llafur mawr. Rhoddwyd gwobrwyon am ganu a darllen gan Mrs. Jenkins, Aeron Villa; Mr. John Jenkins, Aldergate; a Mr. D. Saunders Davies, Commercial House, Felinfach. Ymadawodd pawb gan ddymuno y byddai iddynt gael cwrdd o'r un natur etto yn glau.

DOWLAIS.—Cynnaliwyd cyfarfod trimisol y plant yn y lle hwn dydd Sul, Mawrth 8. Dechreuwyd am chwech o'r gloch trwy ddarllen a gweddio gan Mr. John Jones, Bryntirion Street. Wedi i Mr. Jones gymmeryd y gadair, awd yn mlaen â'r rhaglen ganlynol:—Canu emyn 138; Maggie May Jenkins, Salm xiii.; Hannah Evans, emyn 84; Eddy Jenkins, emyn 427; David Tom Davies, Salm 150; Edward Evans, emyn 156; Gwen Jenkins, emyn 511; Willie Davies, Salm cxxiv.; y gynnulleidfa, emyn 76; Blanche Jenkins, emyn 441; Jane Davies, Salm lxxxiv. David Tom Davies, emyn 20; Maggie May Jenkins, emyn 104; Edward Evans, Salm cxix.; Eddy Jenkins, emyn 429; Hannah Evans, Salm cxxxiv.; Oswald Evans, emyn 425; y gynnulleidfa, emyn 139; Gwen Jenkins, Salm liv.; Willie Davies, emyn 408; Jennet Evans, Salm iii. 112; Jane Davies, emyn 337; a therfynwyd y cyfarfod trwy ganu emyn 201. Drwg oedd genym fod llawer yn absennol trwy afiechyd. Gobeithiaf y gwelir rhagor o rieni'r plant yn y cyfarfod nesaf. Mae y plant yn gwella bob tro.

Mwy gwerthfawr ydyw'r Ysgol Sul
Nâ'r aur a'r perlau drud;
Un o'r bendithion mwya'i gwerth
Erioed a ddaeth i'r byd.

Bendithied Duw yr Ysgol Sul
A'i holl athrawon mwyn;
A'i hysgolheigion, fach a mawr,
I'r nefoedd gânt eu dwyn
—*Swithin Jones.*

PRIODAS.—Chwefror 26, yn Nghapel Twynyrodyn, Merthyr, o flaen y cofrestrydd, a chan y Parch. Hathren Davies, Miss Maggie Morgans â Mr. Watkin William Jenkins - y ddau o Gefncoed.

Ar Watkin a Maggie disgyned pob da;
Boed heulwen heb gwmmwl, pob Gauaf yn Ha'.

Marwgofion.

Yn mis Rhagfyr, 1895, yn Mackay, Queensland, bu farw David Howells, mab Oliver a Mary Howells, gynt o'r Neuaddlydan, ond yn awr o'r Cribyn, yn 37 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig wedi ymfudo i Queensland er's oddeutu

14 o flynyddau yn ol, ac wedi ymsefydlu yn y dref uchod, lle y bu yn llwyddiannus iawn yn ei alwedigaeth fel *saddler*. Ni fu ond ychydig oriau yn glaf. Er hyny nis gellir dweyd ei fod wedi ei fendithio â chyfansoddiad cryf iawn. Gadawodd wraig a thri o blant ar ei ol. Cymraes ydyw ei wraig, genedigol o Ogledd Cymru. Cydymdeimlwn a hi yn fawr yn ei galar a'i gofid dwys ar ol colli ei phriod mewn gwlad mor bell o gartref, ac oddiwrth gyfeillion a pherthynasau. Mae ei dad a'i fam yn fyw hefyd, ac yn awr yn byw yn Cribyn; ac y mae'r ddau yn aelodau ffyddlon o'r gynnulleidfa Undodaidd yn y lle. Rhaid fod colli mab mor bell oddiwrthynt yn ergyd caled iddynt yn eu hen ddyddiau; ond dymunwn ar iddynt ymgysuro ar bwys y gobaith fod ail-gyfarfyddiad etto. Diamheu fod llawer o gyfeillion y dyn ieuanc ymadawedig yn ardal y Cribyn, a chredaf y cydunant a mi i ddweyd ei fod, pan yma, yn ddyn ieuanc o rodiad rhinweddol, a diamheu ei fod wedi parhau felly, onide ni fyddai wedi llwyddo yn ei alwedigaeth i'r graddau ag y gwnaeth. Traddodwyd pregeth mewn cyssylltiad â'r amgylchiad yn Nghapel Cribyn ar y Sul diweddaf yn Mawrth gan y gweinidog, pryd y daeth cynnulleidfa luosog yn nghyd.

Mawrth 13, yn 82 mlwydd oed, Henry Bowen, Craigcefnparc, ger Clydach. Cafodd hir ddyddiau i fyw ar y ddaear; ac os o gryfder y cyrhaeddodd ei 82, diamheu y gellir dweyd i w nerth fod yn boen a blinder iddo. Yr oedd yn Undodwr o'i goryn i'w wadn. Teimlai sêl brwd dros ei gredo, ac nid oedd yn foddlawn ganddo i neb ddweyd dim yn ei herbyn; a phe dygwyddai i rywun ddweyd felly (fel y dygwyddodd droion) yn ei glyw ef, nid un funyd awr y buasai cyn dangos iddo mai "Rhydd i bob dyn ei farn, a phob barn ei llafar" yw hi yn yr oes bresennol. Eisieu mwy o'i fath sydd arnom ni fel Undodiaid. Rhy fach lawer iawn o'r cyfryw sêl sydd yn ein plith fel enwad. Nid oes genym wybodaeth sicr pa beth oedd achos ei farwolaeth, ond lled debyg i henaint chwareu rhan dda ynddo. Yr oedd yn aelod ffyddlawn o Eglwys Gellionen, a mynychodd yr oedfaon cyhyd ag y medrodd. Y dydd Mawrth canlynol, cludwyd ei farwol ran i dy ei hir gartref, i gladdfa yr eglwys grybwylledig, pryd y pregethodd Mr. T. Jenkins, Llanbedr, oddiar y geiriau, "Y mae dull y byd hwn yn myned heibio," a chafwyd sylwadau arbenigol o'r testyn. Er i'r hin fod yn wlyb a 'stormus, cafodd angladd cryf iawn. Na fydded i r perthynasau alaru fel rhai heb obaith. Heddwch i'w lwch hyd nes y caffo glywed seiniau eglur yr udgorn diweddaf.

Dan ofal Duw, nefol Dad,
Yr hen dyner gymmeriad,
O swn y gweryd sy'n gorwedd
O wenau byd yn y bedd.

Mawrth 21, yn 76 mlwydd oed, William Davies, Regent Street, Aberaeron. Claddwyd y lau canlynol, yn Mynwent Eglwys Ciliau-Aeron, pryd y pregethwyd yn y ty gan y Parch. J. Davies, Alltplaca, yn ol dymuniad yr ymadawedig. Dyn a gair da iddo gan y rhai a'i hadwaenent oreu. Nerth fyddo i r weddw a'r plant alaru'n gymmedrol ar ei ol.

Mawrth 22, Mr. Morgan Smith, fferyllydd, Trecynon, Aberdar, yn 42 oed, wedi bod dros 25 mlynedd yn ngwasanaeth Mr. W. Thomas, ac yn olynydd iddo am ryw bedair ereill. Gellir yn hawdd gredu ei fod wedi ennill llwyr ymddiried a pharch ei feistr, gan iddo brofi o'r cychwyn ei fod yn un y gellid dybynu arno. Yr oedd yn onest, yn ddiwyd, yn ddiddiogi, yn brydlawn bob amser, ac yn ffyddlawn yn mhob cyssylltiad. Trwy ei serchogrwydd a'i ddiniweidrwydd, ennillodd barch a chymmeradwyaeth gyffredin ei gymmydogaeth, ac yn yr Hen Dy Cwrdd ni annghofir ei bresennoldeb serchog yn fuan. Dyoddefodd ei gystudd hir a phoenus yn hynod ddirwgnach, a chollasom ef yn nghanol ei ddyddiau. Ddydd yr angladd gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Jenkin Thomas a R.J.J., ac yna hebryngwyd y corff gan dyrfa luosog a pharchus i orsaf y G.W.R., ac oddiyno i Glynnedd, ac yn mynwent yr eglwys fach ar bwys y claddwyd, yr offeiriad yn gwasanaethu.

TEYRNGED I GOFFADWRIAETH

Mr. Morgan Smith, Fferyllydd, 70, Mil Street, Trecynon, Aberdar, yr hwn a fu farw Mawrth 22, 1896, yn 42 oed.

(O'r "Darian.")

Dynesaf dan glwy' hiraeth,
A deigryn ar fy ngrudd,
At fedd fy nghyfaill Morgan Smith,
A'm bron yn drwm a phrudd;

Mae adgof yn fy nghario
I faes blynyddau llon,
I'w weled yno fel yr oedd,
A nwyf yn llanw'i fron.

Ennillodd enw anwyl
A ddaliodd yn y glyn,
Er du awyrgylch oer y bedd,
Dysgleiriai etto n wyn;
Yn rhwymyn cyfeillgarwch
Arosai'n fawr ei barch,
Nis gallai angeu guddio hwn
O'n gwydd dan glawr ei arch.

Gwaith anhawdd oedd ffarwelio
Ag ef ar drothwy'r bedd,
Er fod ein gobaith etto'n gryf
I'w wel'd yn ngwlad yr hedd;
Yn mywyd diargyhoedd
A buchedd Morgan Smith,
Ceir ernes fechan o'r hyn fydd
Ei wir fwynhad dros byth.

Trecynon. TIBEROG.

Mawrth 25, Mary Grainger, merch hynaf y Parch. J. Joseph George, Aberdar, yn 34 oed.

Mawrth 29, o'r ddarfodedigaeth, Mary Evans, anwyl briod Evan Evans, saer maen, Treherbert, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 44 mlwydd oed. Bu ein chwaer ymadawedig yn oedi yn nychlyd ar lan Iorddonen ddofn am amser maith, fel y bydd ereill yn gyffredin o'r un clefyd, ond yr oedd o hyd yn addaw cael gwella, ac yn credu braidd hyd yr anadliad olaf ei bod yn gwella, ond ar y dydd uchod gorfu arni wynebu ymchwydd yr afon, a chefnu ar briod a phlant anwyl, a thad, a brodyr, a chwiorydd hoff, a pherthynasau ereill, a llu o gyfeillion, a gadael heb eu gorphen lawer o gynlluniau oedd ganddi yn yr arfaeth. Treuliodd dymhor llafurus yn ngwinllan ei Harglwydd, a'i hoff waith oedd gwasanaethu ereill, ac yn enwedig ei phriod a i phlant, hawddfyd y rhai oedd mor agos at ei chalon, ac i lygad o gnawd ymddengys ei symmudiad yn golled anadferadwy iddynt. Yr oedd yn aelod gyda'r Annybynwyr, a gwasanaethwyd ar ddydd ei hangladd i dorf luosog yn y ty ac yn y capel gan y Parch. Evan Evans, Soar, Llanbedr (A), a chladdwyd yr hyn oedd farwol o honi yn Mynwent Capel Brondeifi, a chymmerwyd rhan yn y gwasanaeth yn y capel ac ar lan y bedd gan weinidog y lle.

Mawrth 30, yn 36 oed, Ann, gwaig Thomas Wathan, 2, Morgan Row, a merch Evan a Esther Thomas, 1, Morgan Row, Cwmbach, gynt o Sir Aberteifi. Nid oedd iechyd yr ymadawedig wedi bod yn dda er ys blynyddau, a bu ei chystudd olaf yn faith, ac yn hynod boenus. Yr oedd yn aelod o Eglwys Undodaidd yn y Cwmbach, ac hyd nes y gwaethygodd ei iechyd yn un o aelodau ffyddlonaf y côr. Bu'n fam dyner a gofalus, ac yn briod hawddgar, a gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod ac un bachgen, tad a mam oedranus, brawd a chwaer. a pherthynasau ereill. Bydded iddynt gael nerth i alaru fel rhai yn feddiannol ar obaith o gael cyfarfod mewn gwlad well. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog o'i chyfeillion a chydnabyddion yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i dy ei hir gartref yn *Cemetery* Aberdar, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., Jenkin Thomas, a J. Fisher Jones.

Ebrill 4, Hannah Thomas, unig ferch y diweddar Evan Thomas, Cefncoed, ar ol cystudd caled. Y ddarfodedigaeth oedd achos ei marwolaeth, a dyoddefodd wendid mawr. Yr oedd yn aelod o Eglwys yr Hen Dy Cwrdd. Y dydd Mawrth dylynol claddwyd y gweddillion yn Mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog Duw fo'n nodded i'r ferch fach sydd wedi ei gadael heb fam.

Ebrill 12, yn 25 mlwydd oed, ar ol cystudd byr iawn, Rachel Rees, anwyl ferch David a Mary Rees, Lleinau, Llanwenog. Claddwyd y Mercher canlynol yn Mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa luosog gan y gweinidog, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, cefnder yr ymadawedig. Yr oedd yn ferch ieuanc barchus iawn yn ei chymmydogaeth, ac y mae ei henw yn peraroglí ar ei hol. Bydded i'r rhieni, y brodyr a'r chwiorydd, fodd i ymostwng yn dawel i'r dreîn ddoeth, ac ymbarodi i gael cyfarfod dedwydd yn y byd lle nad oes ymadael o hono.

Ebrill 13, yn fis oed, David, baban Elizabeth Davies, Ty'nygruguchaf, Llanwenog. Claddwyd y Mercher canlynol yn Mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.